




Rhyngrwyd Ddibynadwy
beth sy'n ddibynadwy yn y byd ar-lein



Diwrnod
Defnyddio'r
Rhyngrwyd yn
Fwy Diogel 2021


UK Safer
Internet
Centre

Gweithgareddau i'r teulu



Yma mae gweithgareddau diddorol a hwyliog i rieni a gofalwyr allu eu gwneud gyda phlant o bob oed i gefnogi thema Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel eleni: **'Rhyngrwyd Ddibynadwy: beth sy'n ddibynadwy yn y byd ar-lein.'**

Ewch drwy'r gweithgareddau hyn gyda'ch gilydd i helpu eich plentyn i gwestiynu beth mae'n ei weld ar-lein a gwneud synnwyr o'r byd digidol. Mae rhagor o weithgareddau ar gyfer gwahanol oeddrannau ar gael ym Mhecynnau Addysg Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel: saferinternet.org.uk/safer-internet-day/2021

Pob oed



Cytundeb Teulu

Mae cytundeb teulu yn ffordd wych o ddechrau sgwrs am sut mae eich teulu'n defnyddio'r rhyngrwyd. Mae cytundeb diogelwch ar-lein ar gael yn y Pecyn i Rieni a Gofalwyr, ond mae fersiwn fwy manwl ar gael yma: childnet.com/resources/family-agreement.

Ffilmiau Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel

Mae ein ffilmiau Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn ffordd wych i ddechrau sgwrs â'ch plentyn am sut mae'r rhyngrwyd yn gwneud iddo deimlo, a pha gyngor sydd ganddo am ddod o hyd i wybodaeth ddibynadwy ar-lein. Mae gwahanol fideos ar gyfer plant iau a hŷn ar gael yma: saferinternet.org.uk/sid-films.





3-7 Oed




Cyngor campus wrth chwilio ar-lein

Trafodwch â'ch plentyn: Sut wyt ti'n cadw'n ddiogel wrth chwilio am rywbeth ar-lein?

Gallech ysgrifennu ei awgrymiadau, neu ddim ond trafod y pwnc.

Darllenwch stori 'Ditectif Dighwyaden!':
childnet.com/detective-digiduck.



Trafodwch beth mae Y_Dylluan_Ddoeth yn ei ddweud wrth Dighwyaden ei wneud pan fydd yn teimlo'n ansicr am rywbeth mae'n ei weld ar-lein.

Gweithiwch gyda'ch plentyn i greu poster 'Cyngor Campus wrth Chwilio Ar-lein' gan ddefnyddio cyngor Y_Dylluan_Ddoeth o'r stori. Gallai eich plentyn gyfleu cyngor Y_Dylluan_Ddoeth mewn cân neu gerdd, a recordio hynny i greu fideo i'w ddangos i aelodau eraill y teulu!

Stori Smartie y Pengwin

Darllenwch stori Smartie y Pengwin, sy'n cynnwys gwybodaeth annibynadwy:

childnet.com/resources/smartie-the-penguin

Ymunwch â chân Mami Pengwin a dilynwch antur Smartie y Pengwin wrth iddo ddysgu sut mae bod yn ddiogel ar-lein.







7-11 Oed



Ditectifs y Rhyngrwyd

Argraffwch y daflen 'Ditectifs' isod a gofyn i'ch plentyn ddylunio ei fersiwn ei hun.

Gweithiwch gyda'ch plentyn i fod yn dditectif i weld faint o'r gweithgareddau mae'n gallu eu cwblhau. Pan fydd eich plentyn yn cyflawni neu'n cael profiad o weithred ar-lein sydd wedi'i nodi ar y daflen, gall ei groesi neu ei liwio.

Ditectif		
	Enw _____	
<p>Dewch o hyd i ffaith nad oeddech chi'n ei gwybod o'r blaen (Cofiwch wneud yn siŵr ei bod yn ddibynadwy!)</p>	<p>Meddylwch am sut mae bod ar-lein yn gwneud i chi deimlo a dywedwch wrth rywun rydych chi'n ymddiried ynddo.</p>	<p>Gwiriwch dair ffynhonnell i weld a ydy rhywbeth yn ddibynadwy/yn wir.</p>
<p>Dewch o hyd i erthygl neu fideo ar-lein lle mae person yn mynegi ei farn.</p>	<p>Rhannwch rywbeth defnyddiol ar-lein â ffrindiau/teulu.</p>	<p>Defnyddiwch beiriant chwilio a dewch o hyd i'r canlyniadau sy'n cael eu noddi.</p>
<p>Rhowch gynnig ar chwerthin yn uchel am ben rhywbeth ar-lein.</p>	<p>Dewch o hyd i lun sydd wedi cael ei olygu.</p>	<p>Treuliwch amser yn ymchwilio i bwnc mae gennych chi ddiddordeb ynddo, gyda help oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo.</p>

Tudalennau Cynradd Childnet

Beth am gael hwyl gyda'ch plentyn drwy weithio drwy'r gyfres hon o gwisiau rhyngweithiol. Bydd yn eich helpu chi i siarad am sut mae cadw'n ddiogel ar-lein a beth i'w wneud os bydd pethau'n mynd o chwith. Mae'r cwisiau wedi'u hanelu at blant 8-12 oed, ac maen nhw'n cynnwys pynciau fel chwarae gemau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a rhannu pethau ar-lein:

childnet.com/young-people/primary/get-answers.





Rhyngrwyd Ddibynadwy

beth sy'n ddibynadwy yn y byd ar-lein



Diwrnod
Defnyddio'r
Rhyngrwyd yn
fwy Diogel 2021

UK Safer
Internet
Centre

7-11 Oed



Gwersi Fideo SMART Childnet

Ewch ati i wyllo'r gyfres hon o chwech fideo byr gan Dîm Addysg Childnet gyda'ch plentyn. Cewch eich tywys drwy weithgareddau a thrafodaethau am wahanol bynciau diogelwch ar-lein. Mae'r sesiynau, sydd wedi cael eu hanelu at blant 6-9 oed, ar gael yma:

childnet.com/resources/video-lessons.

11-14 Oed



Ewch i Chwilio

Trafodwch â'ch plentyn pa mor ddibynadwy ydy peiriannau chwilio ar-lein. Mae peiriannau chwilio ar-lein wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd a bydd eich dyfais yn defnyddio beth mae'n ei wybod amdanoch chi a'ch diddordebau i ddangos y canlyniadau gorau i chi (ym marn y ddyfais wrth gwrs).

Drwy gymharu'r un chwiliad â'ch plentyn, a fyddwch chi'n gweld amrywiadau neu wahaniaethau yn eich canlyniadau?

Er mwyn profi hyn, cytunwch ar un peiriant chwilio i'w ddefnyddio, fel Bing, Google neu Duck Duck Go.

Chwiliwch am yr un termau, fel: 'yr anifail cyflymaf yn y byd', 'jîns', 'rhaglenni teledu' neu 'cerddoriaeth'.

Cymharwch yr hyn mae eich dyfais chi a dyfais eich plentyn yn ei ddangos i chi. Edrychwch ar yr hysbysebion neu wefannau sy'n ymddangos yn uchel yn y canlyniad chwilio neu ar y dudalen hefyd. Gallech fanteisio ar y cyfle hwn i adolygu unrhyw reolaethau gan rieni neu hidlyddion sydd ar eich cysylltiad rhyngrwyd gartref hefyd.



Adolygwch eich canfyddiadau.

Pa mor dda mae eich dyfeisiau yn eich adnabod chi? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym ni am ba mor ddibynadwy ydy gwybodaeth ar-lein?





11-14 Oed



Hwb Uwchradd Childnet

Ewch ar yr Hwb Cyngor i Ddysgwyr Uwchradd gyda'ch plentyn, i ddangos y cyngor a'r wybodaeth sydd ar gael am wahanol bynciau diogelwch ar-lein. Defnyddiwch hyn i ddechrau sgwrs a'i holi am ei fywyd ar-lein. Rhowch wybod i'ch plentyn y gall ofyn unrhyw gwestiynau i chi:
childnet.com/young-people/secondary.

14-18 Oed



Sgrin-luniau

Gofynnwch i'ch plentyn dynnu sgrin-lun o dri pheth mae wedi'u gweld ar-lein a oedd yn amheus neu'n annibynadwy. Byddai modd gwneud hyn dros wythnos neu un diwrnod. Gallech chi wneud yr un peth a chymharu â'ch plentyn yn nes ymlaen. Gyda'ch gilydd, adolygwch y tair enghraifft rydych chi wedi dod o hyd iddyn nhw.



Trafodwch ble, pryd a sut daethoch chi ar draws eich enghreifftiau. Sut mae eich plentyn yn teimlo am weld y cynnwys hwn ar-lein? Ydy eich plentyn yn gwneud rhywbeth am hyn o gwbl, a sut mae hyn yn gwneud iddo deimlo? Mae gwybodaeth am sut mae rhoi gwybod am wahanol fathau o gynnwys neu gysyllt annibynadwy neu amhriodol ar gael yma: childnet.com/resources/how-to-make-a-report.



Byddwch yn esiampl

Beth am ofyn i'ch plentyn hŷn eich helpu chi neu ei frodyr neu chworydd iau, i adnabod arwyddion gwybodaeth annibynadwy ar-lein? Does dim amheuaeth y bydd ganddo gyngor doeth. Gofynnwch iddo i ble mae'n mynd i gael gwybodaeth ddibynadwy, ac a oes gwahanol bethau y dylid edrych allan amdany'n nhw ar wahanol lwyfannau. Er enghraifft, ydy gwybodaeth annibynadwy yn edrych yr un fath ar Twitter a TikTok?

